**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General

Y
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus / Education and Public Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf:

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Mai 2019

Annwyl Mr Ramsay

**Ynghylch: Papur trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru ar graffu 'Addas at y Dyfodol'**

Diolch ichi am eich llythyr 9 Ebrill yn gofyn am safbwyntiau ar y papur 'Addas at y Dyfodol' a drafodwyd yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Mawrth.

Mae eich llythyr yn gofyn am ymateb i'r thema derfynol a nodir yn y papur trafod - dylai Llywodraeth Cymru a chynghorau ystyried goblygiadau'r themâu uchod o safbwynt trefniadau llywodraethu cynghorau a phartneriaethau. Yn benodol:

- i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru ddibynnu ar swyddogaethau craffu'r awdurdodau lleol yn eu ffurf bresennol; a
- beth y gallai hyn ei olygu ar gyfer y disgwyliadau a osodir ar swyddogaethau craffu o fewn trefniadau llywodraethu a rheoli cynghorau eu hunain ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

## <u>Y Themâu</u>

Mae'r themâu a nodir yn y papur trafod yn bwysig ac maent yn allweddol i sicrhau bod gan gynghorwyr, yn unigol ac ar y cyd, gyd-ddealltwriaeth o ddiben a manteision craffu, ynghyd â'r sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen i ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol. Mae craffu yn hanfodol i sicrhau llywodraeth leol effeithiol. Er nad yw'r materion a godir trwy'r themâu yn newydd, maent yn sbardun defnyddiol i gynghorau ynghylch agweddau allweddol ar drefniadau craffu. Mae rhai o'r materion a danlinellir yn sefydledig ac fe allai ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol a phartneriaid feddwl yn greadigol am y dull gweithredu a ddefnyddir er mwyn i gynnydd gael ei wneud. Byddwn yn ystyried gyda llywodraeth leol a

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

oes unrhyw gamau pellach y gallwn eu cymryd i helpu yn y maes hwn a sut y rhennir arferion gorau ledled Cymru. Mae'r rhestr gyfeirio sy'n cyd-fynd â'r papur yn darparu agenda ddefnyddiol i gynghorau ei mabwysiadu, os ydynt yn dymuno. O ran pob un o'r themâu:

**Egluro rolau a chyfrifoldebau** – mae'n bwysig bod eglurder yn bodoli rhwng aelodau a swyddogion ynghylch eu priod rolau. Bydd hon yn nodwedd allweddol wrth ystyried dulliau gweithredu yn y dyfodol o ran hyfforddiant.

**Gwella ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes craffu** – rhaid i benderfyniadau am wasanaethau fod yn agored i'r cyhoedd graffu arnynt ac mae angen i'r awdurdodau lleol adolygu eu dull gweithredu o ran ymgysylltu â'r cyhoedd.

**Trylwyredd ynghylch cynllunio gwaith craffu** – mae'r awdurdodau lleol eu hunain wedi nodi'r angen am wella ac maent yn gweithio i wneud cynnydd yn y maes hwn.

**Ymateb i heriau presennol ac yn y dyfodol ynghylch cymorth gyda gwaith craffu** – fel y nodir uchod, mae angen i graffu gael ei ystyried yn llawn fel rhan o'r dulliau gweithredu o ran hyfforddi a datblygu.

**Gwerthuso effeithiolrwydd craffu** – rydym yn bwriadu cyflwyno trefniadau newydd ynghylch asesu perfformiad yn y Bil arfaethedig a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol asesu'r trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle.

Mae llawer o'r materion a danlinellwyd eisoes yn cael eu trafod trwy ystod o ddulliau gweithredu a nodir yn fanylach isod.

**I ba raddau y gall Llywodraeth Cymru ddibynnu ar swyddogaethau craffu awdurdodau lleol ar eu ffurf bresennol;**

Mae craffu effeithiol yn dibynnu ar nifer o unigolion a sefydliadau, y mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb ar wahân a neilltuol o fewn y system. Ein rôl yw sicrhau bod fframwaith yn bodoli, o safbwynt deddfwriaeth a pholisi, i hwyluso llywodraeth leol dda, yn hytrach na bod rhaid inni ddibynnu ar waith craffu'r awdurdodau lleol. Mater wedyn i'r awdurdodau lleol yw gweithio o fewn y fframwaith hwnnw a sicrhau bod ganddynt y mesurau lleol priodol yn eu lle i graffu mewn ffordd bwrpasol a chynhyrchiol. Mae'n bwysig hefyd gydnabod atebolrwydd sylfaenol yr awdurdodau lleol i'r rhai sydd wedi eu hethol i wneud penderfyniadau allweddol ynghylch darparu gwasanaethau lleol. I bob pwrpas, dinasyddion lleol sy'n gallu ystyried penderfyniadau a wneir ar eu rhan ac a ydynt yn y pen draw yn sefyll prawf craffu ehangach.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Y ffordd orau o sicrhau craffu effeithiol yw pan fydd pob rhan o'r system yn cydweithio ac yn cydnabod bod craffu mewn unrhyw sefydliad yn arf nad yw'n peri bygythiad i weithredu. Os gwneir gwaith craffu mewn ffordd adeiladol gall wella'r posibiliadau ar gyfer gwella penderfyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos, trwy ddarnau dilynol o ddeddfwriaeth a chanllawiau ategol, ein hymrwymiad i gydweithio'n agos â llywodraeth leol i nodi ym mha ffyrdd y bydd newidiadau i ddeddfwriaeth yn cefnogi gwaith yr awdurdodau lleol boed trwy:

- gryfhau trefniadau craffu a threfniadau eraill;
- cynnig mwy o gyfleoedd i ddinasyddion gymryd rhan mewn meysydd gwaith sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt;
- cyflwyno darpariaethau sy'n cefnogi unigolion - megis cyflwyno absenoldeb teuluol i aelodau o'r awdurdodau lleol trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Mae'r papur Addas at y Dyfodol yn nodi meysydd allweddol lle y credir y gellir gwneud gwelliannau. Mae'r papur hwn yn tanlinellu nifer o gyfleoedd a heriau y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddatblygu ymagweddau at graffu a'r angen am ddull gweithredu mwy effeithiol o ddal aelodau o weithrediaeth cyngor a phartneriaid eraill i gyfrif, yn enwedig mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym yn cytuno bod y rhain yn feysydd pwysig y mae angen rhoi ystyriaeth fanwl bellach iddynt er mwyn cryfhau trefniadau.

Wrth dderbyn yr angen am ddatblygu pellach, mae'n briodol hefyd gydnabod gwaith yr awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac eraill dros y blynyddoedd diwethaf i wneud cynnydd yn y maes hwn.

Un enghraifft o hyn yw'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraethu Cyhoeddus Cymru i ddiwygio'r Llawlyfr Cydgraffu. Rydym yn disgwyl canlyniad hyn yn y dyfodol agos.

Rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud yn y maes hwn ac mae'r gwaith i gryfhau'r trefniadau'n parhau.

**Y disgwyliadau a osodir ar swyddogaethau craffu o fewn trefniadau llywodraethu a rheoli Cynghorau eu hunain ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.**

Mae deialog barhaus rhwng Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a CLlLC ar ystod o faterion yn ymwneud â llywodraeth leol. Mae'r trefniadau ar gyfer craffu'n rhan o'r drafodaeth hon. O ganlyniad, mae'n fwriad gennym gyflwyno fframwaith perfformiad a llywodraethu newydd trwy Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn nes ymlaen eleni. Bwriedir i'r fframwaith newydd hwn ddisodli'r mecanwaith gwella presennol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac mae'n anelu at gefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Y bwriad yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, tryloyw ac uchelgeisiol, gan herio ei hun a mynd ati ar y cyd i wella canlyniadau a safonau cyflawni ledled Cymru.

Bwriedir i'r darpariaethau yn y Bil osod dyletswydd ar brif gyngor i barhau i adolygu ei berfformiad. Ni fwriedir i'r dull gweithredu ystyried a yw dangosyddion perfformiad yn mynd i fyny neu i lawr ond i weld a oes gan yr awdurdodau lleol y prosesau, neu'r llywodraethiant, yn eu lle i fynd i'r afael â newidiadau mewn perfformiad ac i feddwl yn strategol at y dyfodol am sut i drefnu darparu gwasanaethau a gwerthuso risgiau yn erbyn perfformiad.

Cynhelir y broses adolygu ffurfiol trwy hunanasesu, gyda chasgliadau'r broses hunanasesu'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol trwy adroddiad hunanasesu. Bydd hyn yn cynnwys camau i gynyddu i ba raddau y mae awdurdod lleol yn bodloni ei ofynion perfformiad. Bydd yn ofynnol i gynghorau ymgynghori â phobl ar berfformiad. Os caiff craffu ei wneud yn gywir, gall fod yn rhan o her adeiladol i sut y mae awdurdod lleol yn perfformio a sut y mae'n ei drefnu ei hun wrth ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Trwy ganllawiau statudol, caiff y fframwaith perfformiad a llywodraethu ei lunio o amgylch gofynion deddfwriaethol presennol, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel rhan o'r pum ffordd o weithio, caiff cydweithredu (gan gynnwys cydweithredu rhanbarthol) ei ystyried yn ffactor allweddol wrth sicrhau cyngor effeithiol ac arloesol.

Yn y bôn mae llywodraeth leol yn atebol i'r boblogaeth leol a'r allwedd i gryfhau trefniadau yw caniatáu i ddinasyddion lleol weld sut y mae cynghorau'n gwneud penderfyniadau. Dyna pam yr ydym yn bwriadu, fel rhan o'r Bil:

- cryfhau'r gofyniad i'r awdurdodau lleol ddarlledu cyfarfodydd penodol;
- rhoi dyletswydd ar bwyllgorau safonau i gynhyrchu adroddiad blynyddol i'w awdurdod gan gynnwys, lle bo'n briodol, argymhellion ar gyfer gwelliannau;
- estyn rôl Pwyllgorau Archwilio a'u hailenwi'n Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio. Wrth wneud hynny, rydym yn bwriadu cryfhau rôl ac ansawdd aelodau lleyg yn y pwyllgorau hyn.

Er bod y gwaith a nodir uchod yn parhau, cydnabyddwn na all gwell prosesau a threfniadau, ynddynt eu hunain, sicrhau'r gwelliannau a geisir a bod angen i hyn gael ei gefnogi trwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r rhai sy'n rhan o'r system. Mae ar unigolion gyd-ddealltwriaeth briodol o'u rôl ym maes craffu a hynny fel unigolion ac ar y cyd. Yn niffyg y ddealltwriaeth hon, yn aml iawn gall unigolion deimlo na allant leisio pryderon neu awgrymiadau ac o ganlyniad gallant golli'r cyfle i gyfrannu ac i dyfu mewn profiad a hyder. Bydd lefel y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen yn dibynnu ar rôl unigolyn yn nhrefniadau awdurdod lleol unigol ac mae angen i'r hyfforddiant a ddarperir fynd i'r afael â gofynion y gwahanol rolau hyn. Rydym yn gweithio gyda CLlLC i ystyried, yn y lle cyntaf, a oes ffyrdd o gryfhau cynnwys hyfforddiant cynefino cynghorwyr yn y maes hwn.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cyfarfu swyddogion yn ddiweddar â phenaethiaid craffu yr awdurdodau lleol i drafod a oes ffyrdd pellach i Lywodraeth Cymru gefnogi'r awdurdodau lleol a bydd y drafodaeth hon yn parhau dros y misoedd nesaf. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol ar fanylion y datblygiadau uchod, a hynny ar lefel Gweinidogion a swyddogion.

Byddwn yn falch o ddarparu rhagor o wybodaeth neu eglurder ar yr uchod, os byddai hyn o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus/ Director General, Education Public Services
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.